Gan
RHODRI PRYS JONES

# DYCNWCH DARFODEDIG Y CYMRY YN AMERICA

CYFROL a fu o ddiddordeb mawr i mi yn ystod y pedair blynedd diwethaf yw 'Hanes yr Eglwysi Cymreig, yn Columbus Wisconsin, wedi ei hysgrifennu gan y Parch. John R. Jones, ac a gyhoeddwyd gan Thomas J. Griffiths, Printer, yn Utica, New York State, yn 1898.

Tybed a oes gan un o ddarllenwyr *Y Casglwr* gopi o'r gyfrol? Mae'n siŵr ei bod yn brin iawn yng Nghymru, gan mai dim ond rhyw dri chan copi a argraffwyd yn America, a hynny cyn troad y ganrif.

Fy niddordeb yn hanes y milwr John Griffith Jones a'i anturiaethau ar faes y gad yn Rhyfel Cartre America ddaeth â'r gyfrol hon i'm sylw gyntaf. Cefais gyfle i sôn am John rhwng cloriau'r *Casglwr* o'r blaen, ond yr hyn sydd wedi fy synnu o ymweld ag ardal Columbus a darllen cyfrol John R. Jones yw maint y gymdeithas Gymraeg a oedd yn bodoli yn y cylch, a'i hirhoedledd hi ac ystyried mor bell oedd hi o Gymru.

* * *




*Bedd Benjamin Hughes y gof o Glynnog ac un o noddwyr y gyfrol 'Hanes Eglwysi Col. Wis.' Mae sôn amdano ar wyneb-ddalen Hanes Methodistiaeth Arfon (Dosbarth Clynnog), yn ymfudo i America. Canodd Eben Fardd gywydd i ddiolch iddo am wneud aradr.*

ROEDD yn y drefedigaeth, mae'n siŵr, tua dau gant a hanner o drigolion nôl yn chwedegau'r ganrif ddiwethaf. 'Frontier' oedd yr ardal tan 1840, pan ddaeth ymsefydlwyr yno am y tro cyntaf o gyfeiriad Green Bay ar lan Llyn Michigan.

Helwyr anifeiliaid oedd y rhain gan mwyaf, ond ymhen ychydig flynyddoedd yr oedd amryw o Gymry wedi ymsefydlu yno a'u bryd ar amaethu.

Ys dywed awdur y gyfrol '. . . cydgyfarfyddodd nifer pur luosog o Gymru i'r lle . . . yr oedd cydgyfarfyddiad nifer o deuluoedd Cymreig mewn lle yn cael ei ganlyn yn sicr a diymaros a chychwyn allor a gwasanaeth i Dduw yn eu mysg.'

Cynnal oedfa oedd gweithred gyntaf y Cymry bob gafael, a gwneud hynny mewn wagen, 'pedrolfen' yn aml. Heidiai eraill i'w canlyn, yn enwedig pobl Arfon, a phan gyrhaeddodd y drefedigaeth ei phenllanw fel sefydliad Cymreig oddeutu blynyddoedd y Rhyfel Cartref, deuai'r trigolion i gyd bron o'r plwyfi rhwng Pentir a Chlynnog.

Profiad gwefreiddiol i mi oedd cerdded trwy fynwent Bethel, Columbus a'm cael fy hun yn ôl yn yr ardal yr oeddwn i newydd ei gadael, a honno bedair mil a hanner o filltiroedd i ffwrdd ar draws yr Iwerydd.

Roedd pob teulu yn y drefedigaeth wedi dwyn enwau eu ffermydd yn Sir Gaernarfon gyda nhw, ac yn Wisconsin y mae'r enwau hynny hyd heddiw, nid yn unig ar y cerrig beddi, ond ar weithredoedd y ffermydd, ac ar gof ambell un o'r Americanwyr sy'n dal i gofio am fodolaeth y sefydliad Cymreig cyn iddo ddiflannu'n llwyr i'r 'melting pot' Americanaidd.

* * *



*Mynwent Bethel Columbus*

CODWYD pedwar o gapeli Cymraeg mewn ardal sy'n ymestyn o Columbus i Beaver Dam, ryw naw milltir; Nasareth, Moreia, Bethel a Salem. Nid hanes y capeli hynny a geir yn llyfr John R. Jones serch hynny, ond hanes y teuluoedd. Â'r awdur i'r afael ag achau llawer o'r trigolion, ac edrydd hanes eu hymsefydliad, gan ganmol y duwiol hyd at syrffed.

Braidd yn ddiflas, hyd yn oed i'r Cristion mwyaf pybyr, yw'r gor-fanylu hwn ar ysbrydoledd saint y ganrif ddiwethaf, ond fe geir ambell gameo bach digon difyr, megis hwn. 'Daeth John J. Parry yn un hynod yn mysg ieuenctyd Salem a'r sefydliad oll ar gyfrif gwres ei ysbryd, a thynerwch toddedig ei weddiau. Cofir yn dda am dano yn yr oedfa hono, yng ngwres y cynwrf cyntaf, yn moli am Galfaria, gan lefain yn effeithiol, 'Calfaria i fyw, Calfaria i farw, Calfaria forever.'

Erbyn cyraedd amser y diwygiad y flwyddyn ddylynol yr oedd ei ysbryd ef wedi addfedu, fel nad oedd un o holl blant y diwygiad yn fwy hynod pan yn dadleu a phlethu addewidion Duw, mewn tynerwch tawel a nefolaidd.'

* * *

I RYWUN fel fi sy'n gobeithio creu darlun credadwy o'r ardal mewn nofel, mae manylion megis y rhain yn hynod o werthfawr. A phan gyplyswn ni nhw â'r ffeithiau ddaw i'r golwg wrth ddarllen y pedwar ugain llythyr a adawodd John Griffith Jones o'i ôl, a'r holl wybodaeth sy'n gynwysiedig yn Archifdy Wisconsin yn Madison, yn arbennig y 'Platt Maps' a chyfrifiad 1860, fe ddaw toreth o wybodaeth i'r golwg am drigolion Bryn y Fedwen (Llanrug), Cwmcloch (Beddgelert), Hafod Gynfor (Nant Peris) a Prysgol (Llanrug eto).

Difyr yw darllen yng nghyfrol fechan Phillip G. Davies, 'Welsh in Wisconsin', am y modd y mynnodd llawer o'r Cymry hyn ddal gafael yn eu Cymreictod yn wyneb pob bygythiad i'w hunaniaeth, gan lynu at wasanaethau Cymraeg y capeli a phriodi ymysg ei gilydd hyd at y bedwaredd genhedlaeth weithiau. Ni chaewyd drws Bethel 'WCM' ('Welsh Calvinistic Methodist Chapel') tan dri degau'r ganrif hon, a bu rhywrai yn y cylch yn medru siarad Cymraeg tan y chwe degau o leiaf.

Mae mab un o'r teuluoedd olaf i'w siarad hi yn Wisconsin, y Dr Douglas Jones o Tucson, Arizona, yn gobeithio ysgrifennu hanes yr ardal yn llawn rhyw ddydd, gyda chymorth gen i, ond rwy'n ofni y bydd yn rhaid i ni'n dau ymddeol cyn yr eir i'r afael go iawn â'r dasg hynod ddiddorol honno!

---

*O dudalen 7*

Crefftwyr anllythrennog a gerfiodd yr arysgrifau hyn ond gellir cysoni'r dyddiadau a'u gilydd. Ar rai Fferm a Phlasnewydd, 3962 CC fyddai oed y byd, ac mae arysgrif Cyffdy ddigon agos at hyn. Mae ugain mlynedd o wahaniaeth rhwng y rhain a rhai'r Faenol Fach a Phenisa'r-glasgoed, ond tebyg mai camgymryd rhwng 5 a 3 a wnaeth y cerfiwr.

Daw'r dyddiad 3962 CC o *Chronologia* Johann Funk (1533). Gwyddys i Humphrey Llwyd o Ddinbych fod yn berchen ar y llyfr hwn, ac i William Salesbury gyhoeddi *Almanac* na fu iddo oroesi.

Dyma'r ddolen gyswllt yma, mae'n debyg, ac efallai ei bod yn nodweddiadol o uchelwyr blaengar y gogledd-ddwyrain iddynt nodi y dyddiad y bu iddynt godi tai newydd nid yn unig yn ôl oedran Crist ond hfyd yn ôl oedran y byd, yn ôl y dehongliad gwyddonol diweddaraf.

'Ta waeth am hynny, gobeithiaf y bydd hyn yn cyrraedd y Golygydd mewn pryd i ymddangos yn Rhifyn Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni, 1990 — neu 1994 — neu 1996 — neu 5952 — neu 5994 — neu ...!